Docusign Envelope ID: 953D4ECC-D050-495B-9619-A42E334F238E

**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**
**(YR C3201 LLANGLYDWEN (HEBRON I GEFN-Y-PANT))**
**(GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG TRWODD) 2025**

---

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o'r C3201 Llanglydwen (Hebron i Gefn-y-pant) o fan sydd 400 metr i'r de o'r gyffordd â'r C3208 (Hebron i Flaen-waun) am bellter o 100m i gyfeiriad y de, wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar y darn ffordd dan sylw yn sgil y gwaith y bwriedir ei wneud arno.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaniateir i neb beri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn hwnnw o'r Ffordd Ddiddosbarth a adwaenir fel yr C3201 Llanglydwen (Hebron i Gefn-y-pant) o fan sydd 400 metr i'r de o'r gyffordd â'r C3208 (Hebron i Flaen-waun) am bellter o 100m i gyfeiriad y de.
2. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar yr unfed ar hugain o Orffennaf Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Ffordd Ddiddosbarth - yr C3201 Llanglydwen (Hebron i Gefn-y-pant)) (Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig Trwodd) 2025.

**Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**ar y ddogfen hon**

**ar 11 Gorffennaf 2025 ym mhresenoldeb:**




Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

19168

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**